



Adroddiad Arolygu ar

Tŷ Penrhos

**Tŷ Penrhos
2 Ffordd Beddau
Caerffili
CF83 2AX**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

29 Hydref a 01 Tachwedd 2021

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Thŷ Penrhos

Math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion gyda gofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Hafod Housing Association Ltd
Lleuedd cofrestredig	83
Iaith y gwasanaeth	Mae'r adroddiad ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r sefydliad yn ystyried Cymraeg yn iaith gyfartal i Saesneg. Mae angen gweithio tuag at hyn yn y gwasanaeth unigol.
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	Dyma'r arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gofrestru o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.

Crynodeb

Mae staff cyfeillgar a chroesawgar yn cynnig gofal parchus ac urddasol i bobl. Mae pobl yn hapus iawn yn byw yn y cartref ac mae teuluoedd yn dweud wrthym fod eu hanwyliaid yn cael gofal da. Darperir cymorth yn bennaf er mwyn sicrhau bod pobl yn medru gwneud yr hyn sydd yn bwysig iddynt. Mae angen rhywfaint o welliant ynglŷn â'r gwaith o ddarparu a chofnodi maeth a cholli pwysau i'r rhai sydd yn arbennig yn agored i niwed, ond, ar y cyfan, mae digon o fwyd maethlon yn cael ei ddarparu. Canolbwyntir ar anghenion iechyd pobl, sy'n cael eu cyflawni gan staff â chymwysterau addas.

Mae'r adeilad yn gynnes ac yn loyw ac yn caniatáu rhoi cymorth i bobl gyda'u hanghenion corfforol a cymdeithasol yn rhwydd. Mae'r darparwr yn ymwybodol o'r gwaith ailaddurno, ailwampio ac atgyweirio sy'n ofynnol ac yn bwriadu gwneud hyn pan ddaw adnoddau i law. Mae'r staff yn gwneud pob ymdrech i wella'r amgylchedd gydag arddangosfeydd tymhorol.

Mae goruchwyliaeth o'r gwasanaeth, ond oherwydd absenoldeb estynedig yr unigolyn cyfrifol penodedig, mae rhai tasgau gweinyddol wedi cael eu gohirio. Mae rheolwr uchel ei barch yn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth, gyda phobl wrth wraidd y penderfyniadau a wneir.

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn 19 mis ar ôl i'r pandemig COVID-19 ddechrau, ac roedd rhai cyfyngiadau ar waith. Mae pobl yn medru gweld eu hanwyliaid o dan amgylchiadau rheoledig, gan fod y gwasanaeth yn bod yn ofalus i beidio â chyflwyno heintiau i'r cartref.

Llesiant

Mae Tŷ Penrhos yn darparu llety addas i helpu pobl i gyflawni eu llesiant. Mae cyfarpar ar gael i gynorthwyo pobl i symud yn gorfforol. Mae digon o le yn yr ystafelloedd gwely ac ardaloedd cymunol ar gyfer y cyfarpar arbenigol sydd ei angen ar rai pobl. Mae pobl wedi personoli eu hystafelloedd os oeddent am wneud hynny. Mewn rhai ardaloedd mae'r golau yn wan, ond mae hyn i gynorthwyo pobl y mae hyn yn ofynnol ar eu cyfer. Cefnogir gweithgareddau a chynulladau cymdeithasol gan gynllun yr adeilad, a gwelir pobl yn cwrdd yn ardal ganolig y cartref, a elwir yn "*The Street*". Mae pobl yn cael eu cynorthwyo i fynd allan i'r awyr agored, gan gynnwys y siopau a thafarnau lleol. Mae'r cartref yn lân ac yn olau.

Mae polisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant staff ar waith i gefnogi diogelwch pobl, gan gynnwys diogelu rhag camdriniaeth, ond mae'r risg o niwed anfwriadol yn cael ei chynyddu ar brydiau. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogaeth, i sicrhau bod staff yn addas i weithio mewn lleoliad gofal. Pan oes diffyg galluedd ar bobl, maent yn medru cysylltu â chynrychiolwyr neu eiriolwyr a fydd yn gweithredu yn unol â'u budd pennaf. Fel arfer, nid yw'r cynrychiolwyr hyn yn cael eu cynnwys mewn adolygiadau o gynlluniau gofal, felly nid yw effeithiolrwydd yr adolygiadau'n glir. Rydym hefyd yn darganfod nad yw pobl na'u cynrychiolwyr yn ymwybodol o sut y gallant gael eu cynnwys yn y broses o adolygu eu gofal. Dywedodd pobl yr ymgynghorwyd â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryderon. Mae gan y darparwr systemau ar waith i gynnal a chadw'r adeilad ac i gynorthwyo staff i weithio'n ddiogel, ond mae angen rhai gwelliannau i sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni gofynion rheoliadol ynglŷn ag iechyd a diogelwch. Mae angen mwy o sylw brys i gynorthwyo pobl â maethiad, i sicrhau eu bod nhw'n medru cael mynediad i'r maint o fwyd sy'n gywir ar amser sydd yn addas iddynt.

Darparwyd cymorth yn ystod y pandemig, pan nad oedd yn bosib cael ymwelwyr, i gysylltu ag aelodau teuluol gan ddefnyddio technoleg. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n ofalus o safbwynt ymwelwyr yn mynd i mewn i'r adeilad, ac mae dewisiadau amgen yn cael eu hannog ble bynnag y bo'n bosib, gan gynnwys gwibdeithiau allan gyda theuluoedd. Roedd y bobl y gwnaethom ymgynghori â nhw yn cadarnhau hyn. Mae'r tîm o staff yn gyfeillgar a gofalgwr ac yn datblygu perthynas dda â phobl. Mae'r bobl yn dweud wrthym, "*Mae'r staff yn hyfryd.*"

Mae rhai pobl yn cael cymorth i wneud y pethau sydd yn bwysig iddynt, ond mae gwybodaeth a gesglir yn peidio â chael ei defnyddio bob tro i sicrhau bod yr holl bobl yn cael cynnig cyfleoedd. Dywedodd rhai pobl wrthym am sut y gallant ddilyn eu llwybr gyrfa personol gan eu bod nhw'n cael eu cynorthwyo i fynd i'r coleg. Dywedodd eraill wrthym am sut y maent yn cael eu cynorthwyo i gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau.

Nid yw rhyngweithio ystyrion â phobl sydd yn cael gofal yn eu gwelyau yn cael ei ddarparu na'i gofnodi'n rheolaidd neu fel mater o drefn. Er na all y gwasanaeth gyflawni'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg, a fyddai'n sicrhau gwasanaeth yn Gymraeg, mae tystiolaeth bod pobl yn cael eu hannog i fynegi eu hunain a dynodi eu hanghenion gan ddefnyddio eu hiaith a modd mynegi eu hunain.

Gofal a Chymorth

Mae cyfathrebu yn cael ei unigoli. Mae staff yn sicrhau nad yw iaith yn rhwystr, ac mae pobl yn cael eu cefnogi i wneud eu teimladau a'u dymuniadau yn hysbys. Ar sylwom ar gydgyssylltwyr gweithgareddau yn defnyddio ffurf ar iaith arwyddion gydag un unigolyn, a defnyddiodd nyrs gyffwrdd mewn ffordd sensitif i gyfathrebu â rhywun a oedd angen hyn. Mae'r darparwr yn gweithio tuag at gynnig y gwasanaeth yn llawn yn y Gymraeg, ond mae pob ymdrech yn cael ei gwneud i gyfathrebu â phobl yn eu hiaith eu hunain. Mae cydgysylltwyr gweithgareddau yn cynnig dewis i bobl ymuno mewn gweithgareddau.

Mae cynlluniau gofal ynglŷn ag anghenion iechyd yn gynhwysfawr. Mae atgyfeiriadau yn cael eu gwneud i weithwyr iechyd proffesiynol pan fydd angen. Mae pobl yn cael ffisiotherapi yn y gwasanaeth. Dywedodd un unigolyn wrthym am ba mor fuddiol yr oedd hyn, gan ddisgrifio'r cynnydd yr oedd wedi'i wneud gyda'i symudedd. Mae cymorth addas ar waith i bobl sydd angen gofal lliniarol. Mae cofnodion i gynorthwyo gofal iechyd ar waith ac yn cael eu cwblhau fel mater o drefn. Mae offer ar gael i gefnogi pobl gyda'u hanghenion corfforol. Dywedodd teuluoedd yr ymgynghorwyd â nhw wrthym, *"Mae'n cael gofal da ac yn cael ei garu"* ac *"Maen nhw'n wir yn gofalu am X. Mae'n edrych yn dda ac yn lân, wedi cynyddu mewn pwysau, ac yn edrych yn iach."* Gwelsom rai cofnodion aneglur a chamarweiniol ynglŷn â maethu a hydradu. Nid oedd cofnodion ynglŷn â phwysau wedi procio pwysu yn fwy aml pan oedd rhywun wedi colli pwysau am ddau fis yn olynol, fel y byddem wedi disgwyl ei weld. Mae hyn yn rhoi iechyd a llesiant pobl mewn perygl ac rydym felly wedi dyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Mae angen i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r mater hwn. Nid oedd y profiad bwyta a welsom ar ddiwrnod cyntaf ein hymweliad yn hyrwyddo cymeriant deietegol da. Roedd hyn wedi gwella'n fawr erbyn ail ddiwrnod ein hymweliad, ond mae angen ei gynnal.

Nid yw'r darparwr yn sicrhau bob tro bod hanes a dymuniadau'r unigolyn yn cael eu cofnodi i nodi cymorth mwy unigol. Mae dogfen sy'n darparu gwybodaeth i bobl ynglŷn â'r hyn y gallant ei ddisgwyl o'r gwasanaeth yn manylu sut y gwneir hyn, gan gynnwys creu proffil "Dyma Fi". Mae'r gwasanaeth yn darparu adolygiadau cynhwysfawr o ofynion gofal iechyd ond mae angen iddo ystyried y canlyniadau o gwmpas dyheadau a dymuniadau pobl. Mae'r canlyniadau i rai pobl yn glir iawn. Mae un unigolyn yn mynychu'r coleg ac yn cael cefnogaeth i wneud hyn. Mae'r cydgysylltwyr gweithgareddau yn trefnu gweithgareddau ysgogol ac yn cynorthwyo pobl i gyflawni canlyniadau da, ond nid yw hyn yn cael ei gynnig yn gyson i bawb. I'r bobl sydd yn cael gofal yn y gwely, gall y cymorth ganolbwyntio'n fwy ar gwblhau tasgau, gyda chofnodion yn brin o dystiolaeth o ryngweithio ystyrion. Mae angen i'r darparwr sicrhau bod yr holl bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaeth yn destun rhyngweithio unigolledig i hyrwyddo llesiant, a bod hyn yn cael ei gofnodi. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella a disgwyliwn i'r darparwr gymryd camau.

Mae cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu yn fisol, ond nid yw'r adolygiadau hyn yn cynnwys ymgynghori ag unigolion neu eu cynrychiolwyr. Er ei bod wedi bod yn anodd ymgynghori â phobl yn ystod y pandemig, mae darparwr y gwasanaeth yn cydnabod y gellid gwella'r agwedd hon ar y gwasanaeth. Nid oedd un aelod teuluol yn ymwybodol bod angen gwneud hyn ac yn ei chymryd yn ganiataol y byddai'r gwasanaeth yn cysylltu ag ef pe bai newidiadau; nid oedd wedi cael gwahoddiad i gyfrannu at adolygiadau. Nid oedd gan un ffeil ofal ddogfennau allweddol i ddangos dymuniadau unigolyn gan fod cynrychiolwyr heb gael eu hatgoffa i'w cwblhau. Mae cyfleoedd yn cael eu colli i sicrhau bod yr hyn sydd yn bwysig i bobl yn cael ei gofnodi a'i weithredu. Er nad yw hwn yn faes sy'n gofyn am sylw brys, rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Nid yw rhai adolygiadau yn procio cymryd camau gweithredu addas, yn enwedig ynglŷn â cholli pwysau a maethiad. Mae hyn yn ffurfio rhan o'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yr ydym yn ei ddyroddi.

Mae rheoli stoc meddyginiaeth, a'i storio a'i rhoi, yn cael ei wneud yn unol â pholisïau a gweithdrefnau. Cwblheir cofnodion archwilio da ynghylch meddyginiaeth. Mae pobl yn cael eu cefnogi'n briodol i gymryd eu meddyginiaeth. Mae dogfennau ar waith gan weithwyr proffesiynol i sicrhau bod pobl yn cael cymorth i gymryd eu meddyginiaeth os nad oes ganddynt y galluedd i ddeall hyn, gan sicrhau eu bod yn cael y cymorth cywir.

Yr Amgylchedd

Mae Tŷ Penrhos yn gartref gofal pwrpasol sydd â phum uned i ddarparu ar gyfer oedolion ag amrywiaeth o anghenion. Er bod yr adeilad yn darparu lleoedd i tua 83 o bobl, mae pob uned yn cael ei rhedeg fel cartref gofal llai fel bod staff rheolaidd yn darparu cysondeb i bobl. Mae gan bob ystafell wely ystafell ymolchi en suite. Mae digon o le yn yr ardaloedd cymunol ac mae'r coridorau yn llydan i gynorthwyo defnyddwyr cadair olwyn os oes angen. Mae un ardal, a elwir yn "*The Street*" yn darparu cyfleoedd i bobl o'r holl unedau gwrdd â'i gilydd. Gwnaed gwelliannau i sicrhau bod rhai balconïau'n fwy diogel i bobl sy'n eu defnyddio. Mae gan un uned ardal sydd yn cael ei defnyddio ar gyfer ffisiotherapi. Mae cydgysylltwyr gweithgareddau a staff ar yr unedau yn cyfoethogi'r amgylchedd ag arddangosfeydd i gynorthwyo llesiant. Mae gardd amgaeedig sydd wedi'i thirlunio'n braf ar gael ond ni welsom neb yn ei defnyddio yn ystod ein hymweliadau gan fod y tywydd yn anffafriol. Yn ystod datblygiad cynnar y pandemig presennol, cafodd sawl un ei effeithio ac, yn drist iawn, gwnaethant golli eu bywydau. Mae gardd goffa o fewn tir y cartref yn cynnig lle tawel i gofio i berthnasau, staff a phreswylwyr.

Mae gweithdrefnau rheoli heintiau a hylendid yn cael eu dilyn. Mae'r cartref yn lân. Nid oes unrhyw arogleuon annymunol. Gwelir gweithwyr domestig yn cwblhau amserlenni glanhau. Mae'r cemegion sydd eu hangen ar gyfer hyn yn cael eu storio a'u defnyddio yn ddiogel. Mae gan y gegin amserlenni glanhau ar waith i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Er bod y brif gegin arlwyo yn dilyn gweithdrefnau diogel, canfuom nad oedd hyn yn wir yn y gegin mewn un uned. Nid yw bwyd mewn oergell lle mae eitemau preswylwyr yn cael eu storio yn nodi'r dyddiad pan agorwyd, sydd yn ofyniad i sicrhau ymdrin bwyd yn ddiogel. Canfuom hefyd fod drysau ar rhai ystafelloedd gwely yn cael eu cadw ar agor. Mae hyn yn gosod risg o dan reoliadau diogelwch tân. Rhoddwyd sylw i hyn ar ddiwrnod ein harolygiad, ond rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth fonitro'r gwelliant a sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal.

Mae systemau ar waith i sicrhau bod gwiriadau a phrofion amgylcheddol yn cael eu gwneud. Mae cofnodion da ar gael i ddangos bod hyn yn cael ei wneud yn rheolaidd. Mae tystysgrifau yn eu lle i ddangos bod y cyflenwadau trydan, nwy a dŵr yn cael eu profi, a bod y cyfarpar yn bodloni gofynion rheoliadol. Mae angen adnewyddu'r addurniad mewn rhai ardaloedd. Mae angen adnewyddiadau ar y ceginau bach ar bob uned, ac mae angen atgyweirio un balconi i atal dŵr rhag dod i mewn i'r adeilad. Oherwydd y pandemig presennol, mae'r gwaith sydd ei angen yn destun oediadau; fodd bynnag, mynegodd y rheolwyr eu siom o ran pa mor hir y mae peth o'r gwaith atgyweirio yn ei gymryd. Esboniodd yr unigolyn cyfrifol fod peth oedi o ganlyniad i rai adnoddau, fel dur, beidio â bod ar gael. Mae'r staff yn teimlo y byddai llesiant y preswylwyr yn well pe byddai'r gwaith atgyweirio ac adnewyddu'n cael ei wneud ac maent yn cydnabod hefyd y byddai hyn yn gwneud i'r staff deimlo'n well hefyd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella a disgwylw'n i'r darparwr gymryd camau.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae unigolyn cyfrifol, sydd newydd ei benodi, ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth. Oherwydd absenoldeb yr unigolyn cyfrifol blaenorol a'r cyfyngiadau a osodwyd gan y pandemig presennol, mae rhai tasgau y mae'n ofynnol i'r unigolyn yn y swydd hon eu gwneud heb gael eu gwneud. Nid oes unrhyw effaith ar bobl yn y gwasanaeth gan fod swyddogion amgen yn y sefydliad wedi cefnogi'r cartref. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella a disgwyliwn i'r darparwr gymryd camau.

Mae rheolwr ar waith sy'n gyfrifol am gynnal y gwasanaeth o ddydd i ddydd ac mae'n cael ei gefnogi gan ddirprwy reolwyr ac arweinwyr clinigol sydd yn adnabod y gwasanaeth yn dda. Mae polisïau a gweithdrefnau manwl ar waith. Mae dogfen a elwir yn 'ddatganiad o ddiben' a 'chanllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth' ar gael i bobl gael deall am y cartref. Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod gan yr awdurdodau perthnasol, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru, gopi cyfredol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella a disgwyliwn i'r darparwr gymryd camau.

Mae prosesau recriwtio effeithiol yn sicrhau bod staff yn addas i weithio yn eu rolau. Mae cwrs cynefino a hyfforddiant da ar gael, ac mae cyfleoedd i staff yn y sefydliad ddatblygu. Mae cyfarfodydd goruchwylio yn digwydd ond nid yw'r holl staff wedi cael arfarniadau blynyddol yn ddiweddar. Yn rhannol, mae hyn oherwydd y pandemig, ond hefyd oherwydd cyfnod o absenoldeb gan y rheolwr. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella a disgwyliwn i'r darparwr gymryd camau.

Gwelwyd lefelau staffio digonol ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd tystiolaeth yn y rotâu bod sylw yn cael ei roi i fylchau staffio a bod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio pan oes angen, ond nid yw hyn yn digwydd yn aml. Dywedodd nifer o staff y gallai salwch ac absenoldeb staff ar fyr rybudd effeithio ar eu hamodau gwaith, ond gwnaethant gadarnhau y byddent yn sicrhau nad oedd hyn yn effeithio ar y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn nodi bod pryderon wedi cael eu lleisio ynglŷn ag argaeledd staff i ddarparu goruchwyliaeth i bobl y mae angen arsylwadau agos arnynt. Mae hyn wedi cael ei ystyried a sylw wedi rhoi iddo gan ddarparwr y gwasanaeth.

Adroddir bod cefnogaeth gan y staff yn y sefydliad yn dda iawn. Disgrifir bod y rheolwr yn "rhyfeddol" ac mae gan y gweithlu a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld barch mawr tuag ato. Mae'r holl staff yr ymgynghorwyd â nhw yn dweud wrthym fod pawb yn gweithio fel rhan o dîm. Mae'r staff domestig yn cael eu canmol gan staff, preswylwyr a theuluoedd. Maent yn helpu gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ochr yn ochr â gweddill y tîm wrth iddynt fynd y filltir ychwanegol i ryngweithio â phreswylwyr a theuluoedd.

